Hysbysiad preifatrwydd: Cytundeb Cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer Sefydliadau AB Arbenigol (2020-21)

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthych sut y byddwn yn ymdrin ag unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cytundeb cyllido / cais am gyllid.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod eang o gytundebau cyllido a chynlluniau grant er mwyn helpu i gyflawni ein polisïau a chreu Cymru decach, fwy ffyniannus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cytundeb cyllido ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch Arbenigol. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n gorchwyl cyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) ac yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid.

Cyn rhoi cyllid ichi, rydym yn cynnal gwiriadau er mwyn atal twyll ac achosion o wyngalchu arian, ac i wirio pwy ydych chi. Fel rhan o'r gwiriadau hyn, mae'n ofynnol inni rannu data personol amdanoch ag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaethau atal twyll, yn penderfynu eich bod yn peri risg o ran twyll neu wyngalchu arian, efallai y byddwn yn gwrthod â darparu'r cyllid grant rydych wedi gwneud cais amdano, neu efallai y byddwn yn rhoi'r gorau i ddarparu'r cyllid grant presennol ichi.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gallai hyn arwain at bobl eraill yn gwrthod â darparu gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi.

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol mewn ffeiliau yn unol â'n polisi cadw gwybodaeth. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich data personol am 7 mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, fel derbynnydd y grant, yn rhydd rhag holl amodau'r grant, a phan fydd pob taliad wedi'i wneud. Fodd bynnag, os yw'r cyllid yn cael ei ddyfarnu dan yr Eseptiad Bloc Cyffredinol neu De Minimis, bydd eich data personol yn cael eu cadw am 10 mlynedd ar ôl i unrhyw ddyfarniad o gymorth ddod i ben. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am flwyddyn ar ôl y dyddiad y gwnaethoch eu darparu.

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- gweld y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch
- gofyn inni gywiro unrhyw ddata anghywir
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (dan rai amgylchiadau)
- gofyn i'ch data gael eu dileu (dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

Hysbysiad preifatrwydd: Cytundeb Cyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer Sefydliadau AB Arbenigol (2020-21)

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am ymarfer eich hawliau o dan GDPR, mae'r manylion cyswllt isod:

Tîm Arbenigol Lleoliadau Ôl-16 Post16aln@llyw.cymru

Neu:

Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru Parc Cathays CAERDYDD CF10 3NQ **dataprotectionofficer@llyw.cymru**	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth Wycliffe House Water Lane Wilmslow Swydd Gaer SK9 5AF Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113 Gwefan: **ico.org.uk**